# Parafeddyg



Dyma Winston. Mae e'n barafeddyg.



**Beth mae e'n wneud?**

Weithiau, mae e'n gyrru'r ambiwlans yn gyflym i fynd i helpu person sâl. Mae'r seiren yn canu ac mae'r golau glas yn fflachio ond mae Winston yn gyrru'n ofalus iawn.

Weithiau, mae parafeddyg arall yn gyrru ac mae Winston yn eistedd yn yr ambiwlans yn helpu'r person sâl.

Yn yr ysbyty, mae e'n siarad â'r meddygon a'r nyrsys am y person sâl. Mae e'n ysgrifennu adroddiad am y person sâl hefyd.



**Pam mae Winston yn arwr?**

Mae Winston yn garedig ac yn feddylgar ac mae e'n helpu'r person sâl. Mae e'n ddewr hefyd. Mae e'n helpu mewn damweiniau car ofnadwy weithiau.

Mae e'n arwr!



| | | | |
|---|---|---|---|
| parafeddyg | paramedic | gyrru | to drive |
| gweithio | to work | golau | light |
| gwasanaeth | service | ysbyty | hospital |
| sâl | ill | adroddiad | report |
| weithiau | sometimes | damwain, damweiniau | accident, accidents |